Bu Mr. Ken Young gennym un prynhawn yng Nghlwb yr Urdd a dangosodd i ni nifer o ddarluniau diddorol yn ymwneud a Diogelwch ar y Ffyrdd. 'Roedd y plant wrth eu bodd yn gwylio Charlie'r Epa yn dysgu marchogaeth beic ac yn cadw mor dda at y rheolau.

Erbyn hyn mae teledu lliw wedi cyrraedd yr ysgol a'r rhaglenni'n awr yn llawer mwy deniadol a diddorol. Trwy garedigrwydd y Gymdeithas Rhieni Athrawon mae'r ysgol wedi gwario cannoedd o bunnoedd yn ddiweddar ar lyfrau darllen Saesneg a Chymraeg ac wedi gwario cannoedd hefyd ar offer mathematig. Diolchwn i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Diolch hefyd am bob cymorth gyda'r bel-droed. Y mae'r bechgyn wrth eu bodd ar y maes ar Ddydd Sadwrn ac mae'r merched hefyd bellach wedi cychwyn ar eu tymor hwythau o hoci.